

# Cynnwys

## TGAU CBAC mewn ECONOME G Y CARTREF: DATBLYGIAD Y PLENTYN

### I'w Addysgu o 2012 I'w Ddyfarnu o 2014



	Tudalen
Crynodeb o'r Cynllun Asesu	2
Rhagarweiniad	3
Cynnwys y Fanyleb	6
Cynllun Asesu	10
Dyfarnu, Adrodd ac Ailsefyll	13
Gweinyddu Asesiad dan Reolaeth	14
Disgrifiadau o'r Graddau	31
Y Cwricwlwm Ehangach	32

Manyleb linol yw hon: rhaid cymryd pob asesiad ar ddiwedd y cwrs.

## ECONOMEG Y CARTREF: DATBLYGIAD Y PLENTYN

### CRYNODEB O'R CYNLLUN ASESU

<p><b>Uned 1: Egwyddorion Datblygiad Plant: (40%)</b>  <b>Papur Ysgrifenedig: 1½ awr</b>  <b>80 marc (80 GMU)</b></p>
<p>Un papur a gaiff ei osod a'i farcio'n allanol, wedi'i dargedu at yr ystod lawn o raddau TGAU.          Bydd y papur yn cynnwys cwestiynau atebion byr, strwythuredig ac ymateb rhydd wedi'u tynnu o bob maes o'r fanyleb a bydd yn asesu ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig.</p>
<p><b>Uned 2: Astudiaeth Plentyn (30%)</b>  <b>Asesiad dan Reolaeth</b>  <b>60 marc (60 GMU)</b></p>
<p>Un dasg i'w dewis o gronfa o <b>dair</b> tasg a osodir gan CBAC, i gynnwys archwiliad a chynhyrchiad yn canolbwyntio ar ddatblygiad plentyn.          Hyd: 15 awr i gychwyn yn hanner cyntaf y cwrs.          Wedi'i hasesu'n fewnol gan ddefnyddio meini prawf gosod CBAC ac wedi'i safoni'n allanol.</p>
<p><b>Uned 3: Tasg (30%)</b>  <b>Asesiad dan Reolaeth</b>  <b>60 marc (60 GMU)</b></p>
<p>Un dasg i'w dewis o fanc o <b>ddwy</b> dasg wedi'u gosod gan CBAC, i gynnwys ymchwilio, cynllunio, gwneud a gwerthuso.          Hyd: 15 awr i gychwyn yn ail hanner y cwrs.          Wedi'i hasesu'n fewnol gan ddefnyddio meini prawf gosod CBAC ac wedi'i safoni'n allanol.</p>

### DARPARIAETH YR ASESIAID AC ARDYSTIO

	Cod Cofrestru		Mehfin 2014 a phob blwyddyn wedi hynny
	Pwnc	Opsiwn*	
<b>Uned 1</b>	4291	01 neu W1	✓
<b>Uned 2</b>	4292	01 neu W1	✓
<b>Uned 3</b>	4293	01 neu W1	✓
<b>Dyfarniad Pwnc</b>	4290	LA neu UL	✓

**\* Codau Opsiwn**

Cyfrwng Saesneg 01, Cyfrwng Cymraeg W1 - ar gyfer unedau  
 Cyfrwng Cymraeg UL, Cyfrwng Saesneg LA - ar gyfer dyfarniad pwnc

**Rhif Achredu'r Cymhwyster: 500/4401/1**

**Manyleb linol yw hon: rhaid cymryd pob asesiad ar ddiwedd y cwrs.**

# ECONOME G Y CARTREF: DATBLYGIAD Y PLENTYN

## 1

### RHAGARWEINIAD

#### 1.1 Rhesymeg

Mae'r fanyleb wedi'i chynllunio i roi i ymgeiswyr gyfle i estyn a defnyddio eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddatblygiad a gofal plant o'r cenhedlu hyd at bum mlwydd oed o fewn amrywiaeth o gyd-destunau tra'n cynnal y cydlyniant sy'n annatod yn y maes pwnc hwn. Bydd yn galluogi ymgeiswyr i estyn eu gallu dylunio a thechnolegol, a'u sgiliau amlddisgyblaethol gan gynnwys yr holl chwe sgîl allweddol. Datblygir hefyd eu gallu i feddwl yn ddychmygus ac yn flaengar, eu creadigedd a'u hannibyniaeth mewn perthynas â'u diddordeb personol.

Bydd y fanyleb yn rhoi cyfleoedd i ymgeiswyr ddatblygu eu meddwl beirniadol a rheoli amrywiaeth o adnoddau er mwyn datblygu eitemau sy'n addas i anghenion unigolion neu deuluoedd, a nodi dylanwad tueddiadau cyfredol, economi marchnad a newid technolegol. Mae'n hyrwyddo dealltwriaeth o ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol, corfforol a deallusol y plentyn a chaiff hyn ei ryng-gysylltu trwy astudio'r teulu, y gymuned a chyfrifoldeb bod yn rhieni. Bydd yn cynnig cyfleoedd i ymgeiswyr ddatblygu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth trwy faterion perthnasol y pwnc. Mae'r cwrs yn adlewyrchu'r farn y dylai TGAU Economeg y Cartref: Datblygiad y Plentyn ddarparu amrywiaeth o brofiadau tra'n canolbwyntio ar gysyniadau, themâu a materion perthnasol i gynnwys y pwnc.

#### 1.2 Nodau a Chanlyniadau Dysgu

Dylai dilyn cwrs TGAU Economeg y Cartref: Datblygiad y Plentyn annog ymgeiswyr i:

- gael eu hysbrydoli, eu symbylu a'u newid trwy astudio cwrs eang, cydlynus, gwerth-chweil sy'n rhoi boddhad
- datblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer datblygiad plant
- datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o anghenion dynol o fewn cymdeithas amrywiol
- cynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddatblygiadau technolegol a gwyddonol perthnasol
- datblygu ymagwedd feirniadol a dadansoddol tuag at lunio penderfyniadau a datrys problemau mewn perthynas â'r cyd-destun penodol
- archwilio materion sy'n effeithio ar ansawdd bywyd dynol gan gynnwys gwerthfawrogiad o amrywiaeth
- gwerthuso dewisiadau a phenderfyniadau i ddatblygu fel defnyddwyr gwybodus a chraff
- cymryd rhan yn weithredol ym mhrosesau economeg y cartref i ddatblygu fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol.

### 1.3 Dysgu Blaenorol a Dilyniant

Nid oes gofyniad penodol am ddysgu blaenorol ar gyfer y fanyleb hon, gellir ei dilyn gan unrhyw ymgeisydd, o bob rhyw, cefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol.

Nid yw'r fanyleb hon yn benodol i oed, ac fel y cyfryw, mae'n rhoi cyfleoedd i ymgeiswyr estyn eu dysgu gydol oes.

Mae'r fanyleb yn rhoi sail addas ar gyfer astudio pellach yn 16+ gan gynnig dilyniant i gyrsiau academiaidd ac amrywiaeth o rai galwedigaethol gan gynnwys TAG Economeg y Cartref, TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Diplomâu Cenedlaethol/Tystysgrifau mewn Astudiaethau Iechyd/Gofal a Chyrsiau CACHE. Gallai gyfoethogi cyfleoedd gyrfa neu ddarparu cwrs astudio cydlynus a gwerth-chweil sy'n rhoi boddhad i ymgeiswyr nad ydynt am fynd ymlaen i astudiaeth bellach yn y pwnc.

### 1.4 Cydraddoldeb ac Asesiad Teg

Mae TGAU yn aml yn gofyn am asesu ystod eang o allu. Mae hyn oherwydd eu bod yn gymwysterau cyffredinol, ac felly'n paratoi ymgeiswyr ar gyfer ystod eang o alwedigaethau a chyrsiau lefel uwch.

Cafodd y cymhwyster TGAU a'r meini prawf pwnc eu hadolygu i ganfod a oedd unrhyw rai o'r medrau yr oedd eu hangen ar y pwnc yn cynnig rhwystr i unrhyw ymgeisydd anabl. Os oedd hyn yn digwydd, cafodd y sefyllfa ei hadolygu eto i sicrhau y byddai medrau o'r fath yn cael eu cynnwys dim ond lle roeddynt yn hanfodol i'r pwnc. Cafodd canfyddiadau'r broses hon eu trafod gyda grwpiau anabledd a chyda phobl anabl.

Caiff addasiadau rhesymol eu gwneud i ymgeiswyr anabl er mwyn iddynt allu cael mynediad i'r asesiadau. Am y rheswm hwn, ychydig iawn o ymgeiswyr fydd yn cael eu rhwystro'n llwyr rhag gallu cymryd rhan mewn unrhyw ran o'r asesiad. Mae gwybodaeth ynghylch addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-Gyngor Cymwysterau (JCQ) *Rheoliadau ac Arweiniad: Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig*. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (JCQ) [www.jcq.org.uk](http://www.jcq.org.uk) yn Saesneg ac ar wefan CBAC ([www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)) yn Gymraeg.

Efallai y gall ymgeiswyr sy'n dal i fethu â chael mynediad i ran sylweddol o'r asesiad, hyd yn oed ar ôl archwilio pob posibilrwydd trwy addasiadau rhesymol, dderbyn dyfarniad o hyd. Bydd modd iddynt dderbyn gradd am y rhannau hynny o'r asesiad a gwblhawyd ganddynt a dangosir ar eu tystysgrif nad aethpwyd i'r afael â'r holl fedrau. Caiff hyn fod yn destun adolygiad a gellir ei newid yn y dyfodol.

## 1.5 Codau Dosbarthu

Ar gyfer pob manyleb, rhoddir cod dosbarthu cenedlaethol sy'n nodi i ba faes pwnc y mae'n perthyn. Cod dosbarthu'r fanyleb hon yw 3330.

Dylai canolfannau fod yn ymwybodol na chaiff ymgeiswyr sy'n cofrestru am fwy nag un cymhwyster TGAU, gyda'r un cod dosbarthu, ond un radd yn unig (yr uchaf) wedi ei chyfrif at ddibenion Tablau Perfformiad Ysgolion a Cholegau.

Efallai y bydd canolfannau am gynghori ymgeiswyr, os byddant yn dilyn dwy fanyleb gyda'r un cod dosbarthu, bod ysgolion a cholegau'n debygol iawn o gymryd y safbwynt mai dim ond un o'r ddwy TGAU y maent wedi ei hennill. Gellir cymryd yr un safbwynt os yw ymgeiswyr yn dilyn dwy fanyleb TGAU sydd â gwahanol godau dosbarthu ond sydd â gorgyffwrdd sylweddol o ran cynnwys. Dylai ymgeiswyr sydd ag unrhyw amheuan ynghylch eu cyfuniadau pwnc ymgynghori â'r sefydliad y dymunent fynd ymlaen iddo cyn cychwyn ar eu rhaglenni.

## 2

## CYNNWYS Y FANYLEB

Mae cynnwys y fanyleb wedi'i rannu'n **chwe maes astudio** craidd gorfodol y mae'n rhaid eu rhyng-gysylltu lle bynnag y bo modd. Dylid addysgu'r cynnwys canlynol yng nghyd-destun yr amcanion asesu.

- 1 – Y Teulu a'r Plentyn
- 2 – Bwyd ac Iechyd
- 3 – Beichiogrwydd
- 4 – Datblygiad Corfforol
- 5 – Datblygiad Deallusol
- 6 – Datblygiad Cymdeithasol ac Emosiynol

Nid yw trefn gyflwyno cynnwys y fanyleb yn awgrymu trefn addysgu benodol.

1 : Y Teulu a'r Plentyn	
Testun	Dylai ymgeiswyr allu:
Mathau o Deulu	diffinio'r gwahanol fathau o deuluoedd a gwybod y gwahaniaeth rhwng rhai cnewyllol, estynedig, rhiant sengl, llys-riant, amgen; gan gynnwys maeth, mabwysiadu, gofal preswyl
Swyddogaethau/ Cyfrifoldeb	diffinio swyddogaethau a chyfrifoldebau'r teulu mewn cymdeithas amlddiwylliannol; cenedlol, cymdeithasoli, cefnogol, caffael gwerthoedd, darparu anghenion plentyn
Rolau	nodi a gwerthuso rolau o fewn amgylchedd y teulu/cartref a'r gymdeithas ac adnabod amrywiaeth diwylliannol; ethnig, crefyddol, rhanbarthol, dosbarth cymdeithasol mewn dull o fyw teulu a magu plant
Perthnasoedd	nodi a gwahaniaethu rhwng perthnasoedd a geir yn ystod llencyndod a bod yn ymwybodol o'r problemau (cyfeillgarwch, cariad, perthnasoedd rhywiol)  adnabod y pwysau ar y teulu ac asesu eu heffeithiau ar y teulu a'r plentyn gan gynnwys effeithiau posibl chwalu'r teulu
Anabledd	nodi a deall anghenion plant ag anghenion arbennig - diffyg clyw a gweld, awtistiaeth, spina bifida, syndrom Down, parlys yr ymennydd, a'r effeithiau ar y teulu
Cefnogaeth i'r Teulu a'r Plentyn	nodi ac adnabod pwysigrwydd y prif wasanaethau blynyddoedd cynnar sy'n darparu sgrinio iechyd, imiwneiddio, mamolaeth, ysbyty, gofal deintyddol ac addysg - gwahanol leoliadau gofal plant, e.e. meithrinfa, cylch chwarae, gwarchodwr plant, maethu  nodi a disgrifio'r prif asiantaethau gwirfoddol sy'n rhoi cefnogaeth i blant a'u teuluoedd - NSPCC, Childline, Gingerbread, Mencap, Relate, Barnados  adnabod y gefnogaeth a gynigir gan ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r plentyn a'r teulu - Hawliau'r Plentyn, Deddf Plant, Deddf Mabwysiadu, Deddf Gofal Plant, Plant a Gwasanaethau Teulu, Deddf Amddiffyn Plant

<b>2 : Bwyd ac Iechyd</b>	
Testun	Dylai ymgeiswyr allu:
Egwyddorion Deiet lach	ystyried cyngor maeth cyfredol y llywodraeth a'i rôl wrth ffurfio arferion bwyta da a'i berthynas ag iechyd da  nodi'r maetholion sy'n bresennol mewn bwyd (protein, braster, carbohydradau, fitaminau A – E, calsiwm, haearn, ffibr deietegol) sy'n ffurfio deiet cytbwys ac amrywiol i fabanod, a phlant bach a'r gost gysylltiedig
Nodau a Thargedau Deietegol	nodi, dadansoddi a gwerthuso pwysigrwydd arfer maeth da trwy feichiogrwydd, babandod (y fron/bwydo potel), diddyfnu a phlentyndod cynnar
Anghenion Deietegol Arbennig	deall a defnyddio amrywiad mewn ymateb i anghenion deietegol arbennig, materion diwylliannol ac amgylcheddol - llysiuol, diabetig, alergeddau
Diogelwch Bwyd	nodi achosion mwyaf cyffredin gwenwyn bwyd a disgrifio sut mae'r rhain yn digwydd  nodi ac esbonio pwysigrwydd a'r defnydd o arferion hylan wrth baratoi bwyd yn y cartref

<b>3 : Beichiogrwydd</b>	
Testun	Dylai ymgeiswyr allu:
Paratoi am Feichiogrwydd	gwybod pwysigrwydd cynllunio o flaen llaw i fod yn rhieni a gofal cyn cenhedlu gan gynnwys dewis bwyd
Datblygiad y Ffoetws	disgrifio datblygiad y ffoetws o genhedlu i'r geni, nodi ac esbonio ffactorau sy'n effeithio ar ddatblygiad y ffoetws
Gofal Cyn-Geni	diffinio'r term gofal cyn-geni, trafod a gwerthuso ei bwysigrwydd mewn perthynas â'r baban heb ei eni a'i fam
Geni'r Baban	ystyried y ffactorau sy'n effeithio ar y dewis ar gyfer geni'r baban  ystyried ac asesu sut mae datblygiadau diweddar mewn technoleg wedi effeithio ar y dewis ar gyfer geni'r baban - geni dŵr, defnyddio cynlluniau geni, rhyddhad o boen, dulliau monitro  nodi a disgrifio camau esgor a dulliau genedigaeth  asesu rhan y tad/partner adeg y geni  nodi anghenion babanod cynamserol
Gofal ôl-eni	Diffinio'r term gofal ôl-eni a sylweddoli ei bwysigrwydd mewn perthynas â datblygiad y plentyn a gofal y fam

<b>4 : Datblygiad Corfforol</b>	
Testun	Dylai ymgeiswyr allu:
Camau Datblygiad Corfforol	disgrifio patrymau cyffredinol twf a datblygiad nodi sgiliau echddygol bras a manwl o fewn cerrig milltir a gydnabyddir
Ffactorau'n effeithio ar Ddatblygiad Corfforol	esbonio darpariaethau ac amodau angenrheidiol ar gyfer gofal iechyd cyffredinol y plentyn o fewn ei amgylchedd mewn perthynas â deiet, diogelwch, dillad, cysur, gwres a thai - cynnwys sut mae'r rhain yn cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy  gwerthuso pwysigrwydd diogelwch yn amgylchedd y plentyn a nodi datblygiadau technolegol mewn dyluniad cynharach mewn perthynas â diogelwch  disgrifio trin damweiniau syml a'u hatal  nodi ac asesu pwysigrwydd rhaglenni imiwneiddio/brechu

<b>5 : Datblygiad Deallusol</b>	
Testun	Dylai ymgeiswyr allu:
Camau Datblygiad Deallusol	disgrifio patrymau cyffredinol datblygiad deallusol nodi cerrig milltir cydnabyddedig datblygiad mewn perthynas â lleferydd, iaith a rhif
Cymhorthion Dysgu	nodi a gwerthuso'r angen am ddefnydd dethol o gymhorthion dysgu fel llyfrau, cyfngau clyweledol, gemau cyfrifiadurol a thraddodiadol, teganau a gweithgareddau, a chostau cysylltiedig ac ystyriaethau diogelwch
Dysgu Trwy Chwarae	nodi'r berthynas rhwng dysgu a chwarae
Mathau o Chwarae	rhestru a disgrifio gwahanol fathau o chwarae (darganfod, corfforol, creadigol, dychmygus, trafod, cymdeithasol) ac asesu gwerth chwarae yn natblygiad iaith a dealltwriaeth fathemategol
Ffactorau'n effeithio ar Ddysgu	nodi a gwerthuso dylanwad y cartref a'r amgylchedd cyn-ysgol ar ddatblygiad iaith a deallusol y plentyn



<b>6 : Datblygiad Cymdeithasol ac Emosiynol</b>	
Testun	Dylai ymgeiswyr allu:
Camau Datblygiad Cymdeithasol	<p>disgrifio patrymau cyffredinol datblygiad cymdeithasol</p> <p>nodi cerrig milltir cydnabyddedig o ddatblygiad mewn perthynas â chwarae cymdeithasol, moesau, hunanreolaeth, ufudd-dod ac annibyniaeth</p>
Ffactorau'n effeithio ar Ddatblygiad Cymdeithasol	<p>nodi a gwerthuso dylanwad y cartref a'r amgylchedd cyn-ysgol ar ddatblygiad cymdeithasol plentyn</p>
Camau Datblygiad Emosiynol	<p>nodi cerrig milltir cydnabyddedig datblygiad mewn perthynas â sefydlu cwlwm agosrwydd, cariad, hoffter, hapusrwydd, ofn, casineb, dicter ac eiddigedd</p>
Ffactorau'n effeithio ar Ddatblygiad Emosiynol	<p>nodi pwysigrwydd rôl a dylanwad rhiant, rhyngweithiad oedolyn/plentyn ar ddatblygiad emosiynol</p> <p>nodi ac asesu effeithiau ffactorau straen yn ystod babandod ar amgylchedd y plentyn, e.e. geni brawd neu chwaer, marwolaeth rhiant/anifail anwes, symud tŷ, nani newydd, cychwyn ysgol</p>

# 3

## CYNLLUN ASESU

### 3.1 Cynllun Asesu

Mae'r cynllun asesu ar gyfer TGAU Economeg y Cartref: Datblygiad y Plentyn yn ddi-haen, h.y. mae'r holl elfennau'n darparu ar gyfer ystod gyfan gallu ac yn caniatáu mynediad i raddau A\*-G.

Bydd y cynllun asesu'n cynnwys:

#### Uned 1: Papur Ysgrifenedig (1½ awr 40%)

Papur di-haen a gaiff ei osod a'i farcio'n allanol ar ddiwedd y cwrs.

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ymateb i gwestiynau atebion byr, strwythuredig a rhai sy'n gofyn am ymateb rhydd, wedi'u tynnu o bob maes yn yr uned. Bydd rhai cwestiynau'n gofyn am ysgrifennu estynedig a byddant yn asesu ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig. Caiff y papur arholiad ei gyflwyno ar ffurf llyfryn cwestiwn ac ateb.

#### Unedau 2 & 3: Asesiad dan reolaeth (30 awr 60%)

**Uned 2** Astudiaeth Plentyn (30%) **Un dasg** i'w dewis o gronfa o **dair** tasg a osodir gan CBAC.

Wedi'i hasesu'n fewnol gan ddefnyddio meini prawf gosod CBAC ac wedi'i safoni'n allanol.

Hyd: 15 awr i gychwyn yn hanner cyntaf y cwrs.

**Uned 3** Tasg yn Ffocysu ar y Plentyn (30%) **Un dasg** i'w dewis o gronfa o **ddwy dasg** a osodir gan CBAC.

Wedi'i hasesu'n fewnol gan ddefnyddio meini prawf gosod CBAC ac wedi'i safoni'n allanol.

Hyd: 15 awr i gychwyn yn ail hanner y cwrs.

**Mae'r asesiad dan reolaeth yn elfen orfodol o TGAU Economeg y Cartref: Datblygiad y Plentyn.** Mae'n ategu'r arholiad allanol trwy gynnig dull penodol o asesu.

Mae'n galluogi ymgeiswyr i:

- Gynllunio archwiliadau a thasgau
- Cynnal archwiliadau a thasgau
- Defnyddio sgiliau yng nghyd-destun Datblygiad Plant
- Dadansoddi a gwerthuso tystiolaeth
- Llunio barn resymegol a chyflwyno casgliadau

## Lefelau Rheolaeth

Caiff rheoliad asesiad dan reolaeth mewn TGAU Economeg y Cartref: Datblygiad y Plentyn ei rannu'n dri cham:

- gosod tasgau - caiff tasgau eu gosod gan CBAC bob dwy flynedd  
- mae canolfannau'n dewis o fanciau o dasgau cymharol y mae modd eu rhoi mewn cyd-destun
- gosod tasgau - caiff pob tasg ei rheoli o ran amser  
- rhaid i'r gwaith gael ei oruchwylio yn y ganolfan ond fel y gall ymchwil/arsylwi priodol ddigwydd y tu allan i'r ganolfan
- marcio tasgau - rhaid i'r holl waith gael ei asesu gan y ganolfan yn ôl meini prawf a osodir gan CBAC  
- caiff yr holl waith ei safoni gan CBAC

Mae'r rheolaethau hyn yn sicrhau bod yr asesiad yn ddilys, yn ddibynadwy ac wedi'u gwirio gyda gradd uchel o hyder.

## 3.2 Amcanion Asesu

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos eu gallu i wneud y canlynol:

Amcanion asesu	
AA1	Galw i gof, dewis a chyfathrebu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o amrywiaeth o gyd-destunau
AA2	Defnyddio sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau
AA3	Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, ffynonellau a thystiolaeth, llunio barn resymegol a chyflwyno casgliadau

Dyma bwysiad yr amcanion asesu ar draws yr elfennau arholi:

	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Uned 1	20%	7.5%	12.5%	40%
Uned 2 Uned 3	12%	36%	12%	60%
Cyfanswm Pwysiad	32%	43.5%	24.5%	100%

### 3.3 Ansawdd Cyfathrebu Ysgrifenedig

Ar gyfer elfennau sy'n cynnwys ysgrifennu estynedig caiff ymgeiswyr eu hasesu ar ansawdd eu cyfathrebu ysgrifenedig o fewn asesiad cyfan yr uned honno.

Mae cynlluniau marcio ar gyfer yr elfennau hyn yn cynnwys y meini prawf penodol canlynol ar gyfer asesu cyfathrebu ysgrifenedig:

- darllenadwyaeth testun; cywirdeb sillafu, atalnodi a gramadeg; eglurder ystyr;
- dethol ffurf ac arddull ysgrifennu sy'n briodol i'r pwrpas ac i gymhlethdod y testun;
- trefniadaeth gwybodaeth yn glir ac yn gydlynus; defnyddio geirfa arbenigol lle y bo'n briodol.

## 4 DYFARNU, ADRODD AC AILSEFYLL

Caiff cymwysterau TGAU eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A\* i G, gydag A\* yn radd uchaf. Cofnodir cyrhaeddiad ymgeiswyr nad ydynt yn llwyddo i gyrraedd y safon isaf bosibl i gael gradd ei gofnodi fel U (di-ddosbarth) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

Manyleb linol yw hon y mae'n rhaid cymryd pob asesiad ynddi ar ddiwedd y cwrs. Fodd bynnag, gall ymgeiswyr gwblhau'r asesiad dan reolaeth ar unrhyw adeg yn ystod y cwrs. Rhaid gwneud cydrannau allanol eto os yw ymgeiswyr yn dymuno ailsefyll. Gellir ailsefyll y gydran asesiad dan reolaeth hefyd yn ôl canllawiau a roddir yn 'Gweinyddu'r Asesiad dan Reolaeth'. Fel arall, gellir trosglwyddo'r marc GMU am y gydran hon i'w agregu gyda'r cydrannau allanol pan fyddant yn cael eu hailsefyll.

Caiff canlyniadau unedau unigol eu hadrodd ar raddfa marciau unffurf (GMU) gyda'r cyfatebiaethau gradd canlynol:

GRADD	MWYAFSWM	A*	A	B	C	D	E	F	G
Uned 1	80	72	64	56	48	40	32	24	16
Uned 2	60	54	48	42	36	30	24	18	12
Uned 3	60	54	48	42	36	30	24	18	12
Dyfarniad Pwnc	200	180	160	140	120	100	80	60	40

# 5

## GWEINYDDU ASESIAD DAN REOLAETH

### 5.1 Tasgau

Mae'r asesiad dan reolaeth wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

Uned 2 - 30%

Uned 3 - 30%

#### Uned 2 - Astudiaeth Plentyn

Bydd ymgeiswyr yn cwblhau **un** dasg archwilio wedi'i dewis o blith y gronfa o dasgau 'byw' sydd ar gael ar dudalen gartref y pwnc ar y wefan.

Mae'r dasg yn gofyn i'r ymgeisydd gynhyrchu cofnod o archwiliad i gynnwys:

(a) Cynllun Gweithredu (5 marc)	(i) defnydd o amser sydd ar gael (ii) arwydd o fwriad a chynnwys arsylwadau
(b) Cyflwyniad (5 marc)	(i) i gynnwys gwybodaeth gefndir yn ymwneud â'r plentyn, rhieni/gofalwyr a'u hamgylchedd (ii) normau datblygiad perthnasol i'r maes a ddewiswyd o ddatblygiad y plentyn
(c) Cywain gwybodaeth (20 marc)	(i) cofnodi arsylwi a rhyngweithio â'r plentyn ifanc cywain a chasglu gwybodaeth mewn perthynas â maes datblygu'r plentyn sydd mewn ffocws
(ch) Dadansoddi/Dehongli (15 marc)	(i) dadansoddi safbwyntiau, llunio barn a defnyddio gwybodaeth trwy gydol y gwaith
(d) Gwerthuso (15 marc)	(i) effeithiolrwydd y cynllunio (ii) effeithiolrwydd y dulliau a ddefnyddiwyd (iii) canlyniad yr astudiaeth a nodi materion i'w gwella

Dylai canolfannau nodi: Dylai'r arsylwi cysylltiedig â'r dasg hon ddigwydd o dan oruchwyliaeth anffurfiol a bod wedi'i roi mewn cyd-destun gan y ganolfan yn unol ag adnoddau lleol.

## Uned 2: Astudiaeth Plentyn

Adran	Meini prawf ar gyfer dyraniad marciau	Marciau
(a) Cynllun Gweithredu (5 marc)	<p>Disgwylir i ymgeiswyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ddisgrifio'r llwybr a gymerwyd i gwblhau'r dasg, gan gynnwys yr adnoddau angenrheidiol a dulliau i'w defnyddio i gywain a chofnodi gwybodaeth;</li> <li>• dangos gwreiddioldeb a dyfeisgarwch;</li> <li>• nodi'n glir oed y plentyn i'w astudio.</li> </ul>	AA2  AA2
	<p>Tystiolaeth gyfyngedig o gynllunio a gwybodaeth am adnoddau i'w defnyddio. Disgrifiad gwan o ddulliau i'w defnyddio i gynnal yr astudiaeth ac i gywain gwybodaeth.</p> <p>Dim cyfeiriad at y plentyn i'w astudio.</p> <p>Gwybodaeth wedi'i threfnu'n wan. Ychydig neu ddim defnydd o iaith arbenigol a gwallau mynych mewn sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	0 – 2
	<p>Mae cynllunio'n ddigonol gan ddangos rhai arwyddion o wreiddioldeb. Disgrifiad digon o'r adnoddau i'w defnyddio ac esboniad clir o'r dulliau i'w defnyddio i gywain gwybodaeth.</p> <p>Cyfeiriad wedi'i wneud i oed y plentyn i'w astudio.</p> <p>Gwybodaeth wedi ei threfnu'n dda. Defnydd da o iaith arbenigol gyda rhai gwallau sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	3 – 4
	<p>Cynllunio wedi ei strwythuro'n dda ac yn rhesymegol gan ddangos gwreiddioldeb. Disgrifiad cywir a chlir o adnoddau perthnasol i'w defnyddio ac esboniad manwl o ddulliau priodol i'w defnyddio i gywain a chofnodi gwybodaeth.</p> <p>Yn nodi oed y plentyn i'w astudio a sylwadau ar addasrwydd dewis.</p> <p>Gwybodaeth wedi ei threfnu ac wedi'i chyflwyno mewn modd priodol iawn. Defnydd da iawn o iaith arbenigol gydag ychydig wallau sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	5

Adran	Meini prawf ar gyfer dyraniad marciau	Marciau
<p>(b) Cyflwyniad (5 marc)</p>	<p>Disgwylir i ymgeiswyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• roi amlinell o nodau'r astudiaeth;</li> <li>• rhoi gwybodaeth gefndir am yr astudiaeth plentyn;</li> <li>• dethol y normau datblygiad perthnasol i'r maes a ddewiswyd o ddatblygiad y plentyn.</li> </ul>	<p>AA2 AA2 AA1</p>
	<p>Angen cefnogaeth sylweddol. Nodau'r astudiaeth wedi'u hesbonio'n syml. Disgrifiad cyffredinol iawn o'r plentyn. Cyfeiriad cyfyngedig at normau datblygiad.</p> <p>Gwybodaeth wedi'i threfnu'n wan. Ychydig neu ddim defnydd o iaith arbenigol a gwallau mynych mewn sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>0 – 2</p>
	<p>Gyda pheth cefnogaeth ac arweiniad, mae nodau'r astudiaeth wedi'u hesbonio'n ddigonol. Mae disgrifiadau'n briodol ac wedi'u cyflwyno'n dda. Yn dangos dealltwriaeth resymol o'r pwnc a normau perthnasol datblygiad.</p> <p>Gwybodaeth wedi ei threfnu'n dda. Defnydd da o iaith arbenigol gyda rhai gwallau sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>3 – 4</p>
	<p>Gydag ychydig neu ddim cefnogaeth, mae nodau'r astudiaeth wedi'u mynegi'n dda iawn. Mae disgrifiadau'n glir, yn gryno, wedi eu trefnu a'u cyflwyno'n dda. Yn dangos dealltwriaeth dda o'r pwnc a normau perthnasol datblygiad.</p> <p>Gwybodaeth wedi ei threfnu ac wedi'i chyflwyno mewn modd priodol iawn. Defnydd da iawn o iaith arbenigol gydag ychydig wallau sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>5</p>



Adran	Meini prawf ar gyfer dyraniad marciau	Marciau
<p>(c) Cywain Gwybodaeth (20 marc)</p>	<p>Disgwylir i ymgeiswyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• roi'r cynllun gweithredu ar waith</li> <li>• dethol, trefnu a defnyddio gwybodaeth berthnasol i'r dasg;</li> <li>• cywain, cofnodi, cywain a dangos gwybodaeth mewn perthynas â'r astudiaeth;</li> <li>• cyfiawnhau perthnasedd yr arsylwadau i'r astudiaeth.</li> </ul>	<p>AA2 AA1 AA1 AA3</p>
	<p>Tystiolaeth gyfyngedig o ymchwil a defnyddio gwybodaeth. Detholiad cyfyngedig a chyflwyniad o ddeunydd priodol. Dehongliad cyfyngedig gyda chyfiawnhad syml iawn.</p> <p>Gwybodaeth wedi'i threfnu'n wan. Ychydig neu ddim defnydd o iaith arbenigol a gwallau mynych mewn sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>0 – 5</p>
	<p>Lefel resymol o ymchwil a defnyddio gwybodaeth. Detholiad teg o ddeunydd priodol a gwybodaeth wedi'i chyflwyno'n glir. Cyfiawnhad sylfaenol o feini prawf y gwneir arsylwadau arnynt.</p> <p>Gwybodaeth yn dangos dystiolaeth o strwythur. Defnydd cyfyngedig o iaith arbenigol, mynegiant yn cyfleu ystyr ond gwallau i'w gweld mewn sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>6 – 10</p>
	<p>Lefel dda o ymchwil a defnyddio gwybodaeth. Detholiad da o ddeunydd priodol a gwybodaeth wedi'i chyflwyno mewn sawl ffordd. Cyfiawnhad cadarn o feini prawf y gwneir arsylwadau arnynt.</p> <p>Gwybodaeth wedi ei threfnu'n dda. Defnydd da o iaith arbenigol gyda rhai gwallau sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>11 – 15</p>
	<p>Lefel uchel o ymchwil ac amrywiaeth gyflawn o ddeunydd priodol wedi'i ddethol ac wedi'i gyflwyno gan ddangos gwreiddioldeb. Cyfiawnhad manwl o'r meini prawf y seilir arsylwadau arnynt gan ddangos defnydd cadarn o wybodaeth.</p> <p>Gwybodaeth wedi ei threfnu'n dda ac wedi'i chyflwyno mewn modd priodol iawn. Defnydd da iawn o iaith arbenigol gydag ychydig wallau sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>16 – 20</p>

Adran	Meini prawf ar gyfer dyraniad marciau	Marciau
<p>(ch) Dadansoddi/ Dehongli (15 marc)</p>	<p>Disgwylir i ymgeiswyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• drafod y canlyniadau a'u cymharu nhw â normau datblygiad;</li> <li>• rhoi esboniad o'u canfyddiadau, gyda'u trafodaeth bersonol a'u barn eu hunain;</li> <li>• yn rhoi casgliad cyffredinol am y canlyniadau.</li> </ul>	<p>AA2 AA2 AA3</p>
	<p>Dim/ychydig ymdrech i ddehongli canlyniadau. Dealltwriaeth gyfyngedig o'r defnydd o wybodaeth. Ychydig farn wedi'i llunio neu safbwyntiau personol wedi'u mynegi.</p> <p>Gwybodaeth wedi'i threfnu'n wan. Ychydig neu ddim defnydd o iaith arbenigol a gwallau mynych mewn sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>0 – 3</p>
	<p>Canlyniadau wedi'u dehongli gan ddangos dealltwriaeth resymol o'r defnydd o wybodaeth. Safbwynt personol wedi'i fynegi'n syml.</p> <p>Gwybodaeth yn dangos tystiolaeth o strwythur. Defnydd cyfyngedig o iaith arbenigol, mynegiant yn cyfleu ystyr ond gwallau i'w gweld mewn sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>4 – 7</p>
	<p>Dehongliad cadarn a dadansoddiad yn dangos dealltwriaeth dda o'r defnydd o wybodaeth a safbwynt personol wedi'i fynegi.</p> <p>Gwybodaeth wedi ei threfnu'n dda. Defnydd da o iaith arbenigol gyda rhai gwallau sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>8 – 11</p>
	<p>Dadansoddiad da iawn a chyflawn yn dangos dealltwriaeth ardderchog o'r defnydd o wybodaeth. Barn addas wedi'i llunio a safbwynt personol priodol wedi'i roi.</p> <p>Gwybodaeth wedi ei threfnu'n dda ac wedi'i chyflwyno mewn modd priodol iawn. Defnydd da iawn o iaith arbenigol gydag ychydig wallau sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>12 – 15</p>

Adran	Meini prawf ar gyfer dyraniad marciau	Marciau
<p>(d) Gwerthuso (15 marc)</p>	<p>Disgwylir i ymgeiswyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gynhyrchu adolygiad cyffredinol o'r astudiaeth plentyn i gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) trafodaeth o fanteision cynllun gweithredu;</li> <li>(ii) trafodaeth o effeithiolrwydd dulliau amrywiol a ddefnyddir i gywain gwybodaeth;</li> <li>(iii) dadansoddiad o'r canlyniadau yn perthyn i oed penodol plentyn 0-5 mlwydd oed.</li> </ul> </li> <li>• dangos gwerthfawrogiad o gryfderau a gwendidau'r astudiaeth a nodi meysydd posibl ar gyfer datblygiad/gwella.</li> </ul>	<p>AA2 AA3 AA3</p>
	<p>Gwerthusiad gwan/cyfyngedig gydag ychydig sylwadau neu rai arwynebol ar gynllunio, dulliau a chanlyniadau. Dim gwerthfawrogiad neu werthfawrogiad cyfyngedig am rannau da/gwan yr astudiaeth. Awgrymiadau cyfyngedig ar gyfer gwella'r gwaith, a dim sôn /neu fân awgrymiadau am ddatblygiad pellach.</p> <p>Gwybodaeth wedi'i threfnu'n wan. Ychydig neu ddim defnydd o iaith arbenigol a gwallau mynych mewn sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>0 – 3</p>
	<p>Ymdrech resymol i werthuso'r cynllunio, y dulliau a ddefnyddiwyd i gywain gwybodaeth, cyflwyno'r astudiaeth a dadansoddi'r canlyniadau. Peth trafodaeth o bwytiau gwan/cryf yr astudiaeth gyda pheth awgrymiadau am welliannau posibl.</p> <p>Gwybodaeth yn dangos tystiolaeth o strwythur. Defnydd cyfyngedig o iaith arbenigol, mynegiant yn cyfleu ystyr ond gwallau i'w gweld mewn sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>4 – 7</p>
	<p>Ymdrech dda i werthuso'r cynllunio, y dulliau a ddefnyddiwyd i gywain gwybodaeth, cyflwyno'r astudiaeth a dadansoddi'r canlyniadau. Trafodaeth dda o bwytiau gwan/cryf yr astudiaeth gydag awgrymiadau synhwyrol am welliannau posibl.</p> <p>Gwybodaeth wedi ei threfnu'n dda. Defnydd da o iaith arbenigol gyda rhai gwallau sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>8 – 11</p>
	<p>Gwerthusiad cyflawn o'r astudiaeth sy'n cynnwys cynllunio, dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu data, cyflwyno a dadansoddi'r canlyniadau. Gwerthfawrogiad da o gryfderau a gwendidau'r astudiaeth gydag awgrymiadau synhwyrol ar gyfer datblygiad a chynigion dychmygus ar gyfer gwella.</p> <p>Gwybodaeth wedi ei threfnu'n dda ac wedi'i chyflwyno mewn modd priodol iawn. Defnydd da iawn o iaith arbenigol gydag ychydig wallau sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>12 – 15</p>

### Uned 3: Tasg yn Canolbwyntio ar y Plentyn

Bydd ymgeiswyr yn cwblhau **un** dasg wedi ei dewis o'r gronfa o dasgau 'byw' sydd ar gael ar dudalen gartref y pwnc ar y wefan.

#### Gwaith Cefnogol - Canllawiau

Dylai eich gwaith cefnogol ddangos tystiolaeth o ymchwil, dehongli ac archwilio, gan ddefnyddio TGCh lle mae'n briodol, i gefnogi cyflawni'r dasg a ddewiswyd gennych yn ymarferol. Gallwch dynnu ar waith a wnaeth yn ystod Tasg 1. Argymhellir bod eich gwaith yn cael ei gyfyngu i 8 tudalen o bapur A3 neu'r hyn sy'n cyfateb. Dylai'r gwaith cefnogol gynnwys tystiolaeth o'r canlynol:

- |      |  |      |
|------|--|------|
| (a)  | dehongli a dadansoddi eich tasg;   | [10] |
| (b)  | dethol a datblygu syniadau;  | [10] |
| (c)  | cynllunio;   | [15] |
| (ch) | cyflawni;  | [15] |
| (d)  | gwerthuso eich gwaith o ran:   | [10] |
|      | (i) cynllunio'r dasg,  |      |
|      | (ii) dulliau a ddefnyddiwyd i gael gwybodaeth a thystiolaeth,  |      |
|      | (iii) dehongli canlyniadau a gafwyd gan ddefnyddio tystiolaeth i gefnogi casgliadau,                               |      |
|      | (iv) sylweddoli cryfderau a gwendidau'r dasg, ei gwerth i'r plentyn a nodi datblygiad/ gwelliannau pellach posibl. |      |

**Uned 3: Tasg yn Canolbwyntio ar y Plentyn**

Adran	Meini prawf ar gyfer dyraniad marciau	Marciau
<p>(a) Dehongli a Dadansoddi (10 marc)</p>	<p>Disgwylir i ymgeiswyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• nodi nodau eu harchwiliad;</li> <li>• dethol materion a chwestiynau o fewn cyd-destun y dasg;</li> <li>• defnyddio cymhwyso gwybodaeth i grynhoi gwybodaeth berthnasol.</li> </ul>	<p>AA1 AA1 AA2</p>
	<p>Nodau wedi'u ffurfio'n wan, ychydig dystiolaeth o wybodaeth gefndir, heb allu dethol meysydd priodol.</p> <p>Gwybodaeth wedi'i threfnu'n wan. Ychydig neu ddim defnydd o iaith arbenigol a gwallau mynych mewn sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>0 – 2</p>
	<p>Nodau wedi'u symleiddio'n fawr, ymagweddu sylfaenol iawn gyda deunyddiau ac adnoddau cyfyngedig neu heb ddangos gwreiddioldeb. Peth defnydd o gymhwyso gwybodaeth.</p> <p>Gwybodaeth yn dangos tystiolaeth o strwythur. Defnydd cyfyngedig o iaith arbenigol, mynegiant yn cyfleu ystyr ond gwallau i'w gweld mewn sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>3 – 4</p>
	<p>Mynegiad digonol o nodau, gyda thystiolaeth o wybodaeth gefndir. Detholiad teg o ddeunydd priodol.</p> <p>Gwybodaeth wedi ei threfnu'n dda. Defnydd da o iaith arbenigol gyda rhai gwallau sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>5 – 7</p>
	<p>Datganiad o nodau wedi'i fynegi'n dda. Adnabyddiaeth glir o ffactorau perthnasol. Detholiad da o ddeunyddiau priodol, gan ddangos tystiolaeth o ymagweddiad unigol. Materion yn ymwneud â'r dasg wedi'u trafod yn llawn gan ddangos defnydd llawn o wybodaeth a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), lle y bo'n briodol.</p> <p>Gwybodaeth wedi ei threfnu'n dda ac wedi'i chyflwyno mewn modd priodol iawn. Defnydd da iawn o iaith arbenigol gydag ychydig wallau sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>8 – 10</p>

Adran	Meini prawf ar gyfer dyraniad marciau	Marciau
<p>(b) Dethol a Datblygu Syniadau (10 marc)</p>	<p>Disgwylir i ymgeiswyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ddedhol, trefnu ac archwilio syniadau/datrysiadau posibl.</li> <li>• gwneud dewisiadau rhesymegol trwy ddefnyddio gwybodaeth;</li> <li>• dadansoddi safbwyntiau a chyflwyno tystiolaeth mewn ffordd briodol berthnasol i'r dasg.</li> </ul>	<p>AA1</p> <p>AA2</p> <p>AA3</p>
	<p>Syniadau cyfyngedig iawn nad ydynt o reidrwydd yn addas i'r dasg. Ychydig dystiolaeth i gefnogi'r dewis terfynol. Gwaith yn brin o eglurder.</p> <p>Gwybodaeth wedi'i threfnu'n wan. Ychydig neu ddim defnydd o iaith arbenigol a gwallau mynych mewn sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>0 – 2</p>
	<p>Amrywiaeth o syniadau sy'n ymwneud â'r dasg gyda pheth dystiolaeth gefnogol ar gyfer y dewis terfynol.</p> <p>Gwybodaeth yn dangos tystiolaeth o strwythur. Defnydd cyfyngedig o iaith arbenigol, mynegiant yn cyfleu ystyr ond gwallau i'w gweld mewn sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>3 – 4</p>
	<p>Datblygiad clir o amrywiaeth o syniadau addas gan ddangos tystiolaeth o ddewisiadau esboniadol ac wedi'u rhesymu'n dda.</p> <p>Gwybodaeth wedi ei threfnu'n dda. Defnydd da o iaith arbenigol gyda rhai gwallau sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>5 – 7</p>
	<p>Tystiolaeth o amrywiaeth o syniadau wedi'u datblygu'n dda, yn realistig, yn gyraeddadwy ac yn briodol i'r dasg. Penderfyniadau ar sail gwybodaeth glir ac wedi'u cyfiawnhau'n llawn ar gyfer y dewisiadau a wnaed.</p> <p>Gwybodaeth wedi ei threfnu'n dda ac wedi'i chyflwyno mewn modd priodol iawn. Defnydd da iawn o iaith arbenigol gydag ychydig wallau sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>8 – 10</p>

Adran	Meini prawf ar gyfer dyraniad marciau	Marciau
(c) Cynllunio (15 marc)	<p>Disgwylir i ymgeiswyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth i gynllunio'r dasg;</li> <li>• dangos ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch yn y cynllunio;</li> <li>• dangos tystiolaeth o gymhwysiad mewn detholiad o adnoddau;</li> <li>• dangos dealltwriaeth o ofynion y dasg a chysylltu hyn ag oed plant 0-5 mlwydd oed.</li> </ul>	AA2 AA1 AA2 AA2
	<p>Ychydig dystiolaeth o gynllunio gyda chyfeiriad cyfyngedig iawn at iechyd a diogelwch ac at oed y plant. Cyflwyniad y wybodaeth yn ddryslyd ac anniben.</p>	0 – 3
	<p>Tystiolaeth o gynllunio sylfaenol, cyfeiriad cyfyngedig wedi'i wneud at iechyd a diogelwch ac at oed y plant. Methodoleg yn dangos diffyg blaengaredd. Rhai anghywirdeb yn yr wybodaeth a gyflwynwyd.</p>	4 – 7
	<p>Tystiolaeth o gynllunio boddhaol yn dangos blaengaredd ac ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch ac o oed y plant. Roedd y dulliau a ddewiswyd, ar y cyfan, yn gywir. Gwybodaeth gadarn wedi'i chyflwyno.</p>	8 – 11
	<p>Tystiolaeth o dasg wedi'i chynllunio'n dda yn dangos ymwybyddiaeth lawn o iechyd a diogelwch ac o oed y plant. Yn dangos blaengaredd ac yn gwneud dewis priodol o ddulliau.</p>	12 – 15

Adran	Meini prawf ar gyfer dyraniad marciau	Marciau
(ch) Cyflawni (15 marc)	<p>Disgwylir i ymgeiswyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth i gyflawni cynllun gweithredu. Dangos ymwybyddiaeth o sgiliau iechyd a diogelwch;</li> <li>• dangos tystiolaeth o ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau ymarferol wrth gyflawni;</li> <li>• addasu'r canlyniad ymarferol fel y bo angen;</li> <li>• defnyddio cyflwyniad priodol o dechnegau ar gyfer y canlyniad gorffenedig.</li> </ul>	<p>AA2</p> <p>AA2 AA3</p> <p>AA2</p>
	<p>Cefnogaeth barhaus wedi'i rhoi i gwblhau ymddangosiad y dasg ymarferol/ tasg orffenedig yn wan. Dealltwriaeth gyfyngedig iawn o'r dasg a lefel isel o sgil wedi'i dangos.</p>	<p>0 – 3</p>
	<p>Peth cefnogaeth ac arweiniad yn angenrheidiol i gwblhau'r dasg. Ymddangosiad/tasg orffenedig yn weddol. Dealltwriaeth sylfaenol o'r dasg a lefel sylfaenol o sgil wedi'i dangos.</p>	<p>4 – 7</p>
	<p>Cynllun gweithredu wedi'i gyflawni'n effeithiol gan ddangos peth blaengaredd. Dewis addas o ddulliau wedi'u cyflawni'n dda gan ddefnyddio lefel dda o sgiliau. Gwaith yn adlewyrchu dealltwriaeth o'r dasg.</p>	<p>8 – 11</p>
	<p>Cynllun gweithredu wedi'i gyflawni'n annibynnol gyda blaengaredd. Lefel uchel o sgil wedi'i dangos. Ymddangosiad/ tasg orffenedig ardderchog gyda dealltwriaeth gadarn o ofynion y dasg.</p>	<p>12 – 15</p>



Adran	Meini prawf ar gyfer dyraniad marciau	Marciau
(d) Gwerthuso (10 marc)	<p>Disgwylir i ymgeiswyr:</p> <p>(i) werthuso effeithiolrwydd a phriodoldeb eu</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynllunio</li> <li>• archwiliadau wedi'u defnyddio i gael gwybodaeth a thystiolaeth gan lunio safbwynt personol</li> <li>• defnyddio tystiolaeth i gefnogi casgliadau a dangos dealltwriaeth o ofynion y dasg ac yn ymwneud ag oed y plant 0-5 mlwydd oed</li> <li>• cyflwyniad;</li> </ul> <p>(ii) dangos ymwybyddiaeth o gryfderau a gwendidau'r dasg a nodi datblygiadau pellach posibl.</p>	<p>AA3</p> <p>AA3</p>
	<p>Dadansoddiad gwan iawn, gydag ychydig sylwadau ar gynllunio, dulliau a chanlyniadau, casgliadau gwan wedi'u llunio gydag ychydig neu ddim cyfeiriad at oed y plant. Ymwybyddiaeth gyfyngedig iawn o gryfderau a gwendidau'r dasg. Awgrymiadau cyfyngedig iawn ar gyfer gwella gwaith. Dim sôn am ddatblygiad pellach. Gwybodaeth wedi'i threfnu'n wan. Ychydig neu ddim defnydd o iaith arbenigol a gwallau mynych mewn sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>0 – 2</p>
	<p>Dadansoddiad cyfyngedig, sylwadau arwynebol ar gynllunio, dulliau a chanlyniadau, casgliadau sylfaenol wedi'u llunio gyda chyfeiriad cyfyngedig at oed y plant. Peth trafodaeth o gryfderau a gwendidau'r dasg gyda rhai awgrymiadau ar gyfer gwelliannau pellach. Gwybodaeth yn dangos tystiolaeth o strwythur. Defnydd cyfyngedig o iaith arbenigol, mynegiant yn cyfleu ystyr ond gwallau i'w gweld mewn sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>3 – 4</p>
	<p>Ymgais resymol/dda ar ddadansoddi a chyfiawnhau cynllunio, dull a chanlyniadau, wedi'u cefnogi gan dystiolaeth berthnasol a chyfeiriad realistig at oed y plant. Trafodaeth dda o gryfderau a gwendidau'r dasg gydag awgrymiadau cadarn ar gyfer gwelliannau pellach. Gwybodaeth wedi ei threfnu'n dda. Defnydd da o iaith arbenigol gyda rhai gwallau sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>5 – 7</p>
	<p>Dadansoddi cyflawn a chyfiawnhad o gynllunio, dulliau a chanlyniadau, yn tynnu ar dystiolaeth berthnasol. Dadansoddi canlyniadau mewn perthynas â'r grŵp oedran. Ymwybyddiaeth dda o gyfyngiadau'r dasg gydag awgrymiadau synhwyrol ar gyfer gwaith pellach. Gwybodaeth wedi ei threfnu'n dda ac wedi'i chyflwyno mewn modd priodol iawn. Defnydd da iawn o iaith arbenigol gydag ychydig wallau sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	<p>8 – 10</p>

<b>UNED 2 ASTUDIAETH PLENTYN</b>	<b>AA1</b>	<b>AA2</b>	<b>AA3</b>	<b>CYFANSWM</b>	<b>Ansawdd Cyfathrebu Ysgrifenedig</b>
Cynllun gweithredu	-	5	-	5	✓
Cyflwyniad	3	2	-	5	✓
Cywain gwybodaeth	9	9	2	20	✓
Dadansoddi/Dehongli	-	12	3	15	✓
Gwerthuso	-	3	12	15	✓
<b>CYFANSWM</b>	<b>12</b>	<b>31</b>	<b>17</b>	<b>60</b>	

<b>UNED 3 TASG YN CANOLBWYNTIO AR Y PLENTYN</b>	<b>AA1</b>	<b>AA2</b>	<b>AA3</b>	<b>CYFANSWM</b>	<b>Ansawdd Cyfathrebu Ysgrifenedig</b>
Dehongli / Dadansoddi	6	4	-	10	✓
Dethol / Datblygu	2	3	5	10	✓
Cynllunio	4	11	-	15	-
Gwneud	-	13	2	15	-
Gwerthuso	-	-	10	10	✓
<b>CYFANSWM</b>	<b>12</b>	<b>31</b>	<b>17</b>	<b>60</b>	

## 5.2 Rheoli Dilysrwydd

Rhaid i'r gwaith ymchwil gael ei oruchwyllo gan yr athro/athrawes a rhaid cynnig arweiniad ynghylch ffynonellau priodol o ymchwil sy'n gymwys i'r dasg a ddewiswyd. Dylai'r ymchwil gynnwys, lle y bo'n briodol, lyfrau, papurau newydd, y rhyngwyd. Yn achos ymchwil gynradd, lle caiff holiaduron eu defnyddio, dylai'r cwestiynau gael eu dyfeisio yn y dosbarth o dan oruchwyliaeth athro/athrawes ond gellir casglu'r data ymchwil i ffwrdd o'r safle.

Rhaid i athrawon gadw log o unrhyw gyngor cyffredinol a roddir i'r holl ymgeiswyr. Rhaid cyflwyno copiâu o'r cyngor i'r safonwr gyda sampl o'r dasg.

Mae hi weithiau'n angenrheidiol i'r athro ddarparu peth deunydd ymchwil i'r holl ymgeiswyr. Mae hyn oherwydd bod cael gafael ar ddeunydd o'r fath yn gallu bod yn broblematic i rai ymgeiswyr. Dylid cydnabod pob ffynhonnell.

## 5.3 Cyfrinachedd

Disgwylir i ymgeiswyr gynhyrchu astudiaeth plentyn a all godi materion cyfrinachedd.

1. Rhaid i ymgeiswyr bob amser geisio caniatâd unigolion/neu rieni, yn ysgrifenedig os oes modd, cyn eu cyfweld.
2. Rhaid i ymgeiswyr bob amser ei gwneud hi'n glir i unigolion y bydd eraill yn darllen y wybodaeth a roddant, e.e. athrawon a safonwyr.
3. Rhaid i ymgeiswyr beidio â throsglwyddo'r wybodaeth a gafwyd i unrhyw un ar wahân i'r rhai y'i bwriadwyd ar eu cyfer.
4. Rhaid i ymgeiswyr ddiogelu anhysbysrwydd yr unigolion trwy ddefnyddio enwau ffug am yr unigolion eu hunain ac am unigolion eraill y cyfeirir atynt, a, lle y bo'n briodol, newid enwau lleoedd neu unrhyw enwau a ffeithiau eraill a allai roi modd i adnabod yr unigolion.
5. Rhaid i ymgeiswyr beidio â chofnodi gwybodaeth am unigolion a allai fod â goblygiadau cyfreithiol.

## 5.4 Iechyd a diogelwch

Dylid gwneud ymgeiswyr yn ymwybodol o faterion iechyd a diogelwch yn y fanyleb ac arwyddocâd arferion gweithio diogel. Dylid eu hannog i ddatblygu synnwyr o gyfrifoldeb am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac eraill yn enwedig yn ystod gwaith a wneir wrth gwblhau astudiaeth plentyn.

1. Ni ddylai ymgeiswyr wneud gwaith sydd yn uwch na'u lefel o hyfforddiant a phrofiad.
2. Ni ddylai ymgeiswyr roi eu hunain yn agored i risg corfforol neu foesol.
3. Ni ddylai ymgeiswyr beryglu unrhyw rai sy'n wrthrych eu hymchwil.

## 5.5 Rheoli Amser

Dylai'r amser a glustnodir ar gyfer tasgau'r asesiad dan reolaeth fod yn 30 awr. Cynlluniwyd y cyfnod amser i roi'r hyblygrwydd mwyaf wrth gynnal y dasg ac i fodloni anghenion yr ymgeiswyr y mae arnynt angen amser ychwanegol oherwydd anawsterau dysgu, er enghraifft. (Mae hyn yn cydymffurfio â dogfen y CGC (JCQ) *Trefniadau Mynediad ac Ystyriaeth Arbennig.*)

Rhaid i'r amser gael ei gofnodi ar ddalen glawr CD3 a'i lofnodi gan yr ymgeisydd a'r athro/athrawes.

## 5.6 Anodi asesiad dan reolaeth

Dylid gwneud hyn trwy:

- (i) sylwadau crynodol ar ddalen glawr yr asesiad dan reolaeth (CD3);
- (ii) anodi asesiad dan reolaeth yr ymgeiswyr, h.y. yn yr ymyl neu yn y testun. Dylai hyn fod yn gryno ac i'r pwynt. Dylid tynnu sylw lle mae ymgeiswyr yn darparu tystiolaeth o gyrraedd lefel benodol o berfformiad mewn perthynas â'r amcanion asesu neu lle mae gwallau amlwg (e.e. gwallau ffaith, dehongli, diffiniad a theori) a lle mae'r gwaith yn amherthnasol.

Bwriad anodi yw cynorthwyo'r safonwr i ddeall yn llawnach sut mae'r athro wedi cyrraedd y marc a ddyfarnwyd i'r ymgeisydd.

## 5.7 Safoni Mewnol asesiad dan reolaeth

Rhaid i ganolfannau sicrhau bod safoni gofalus yn digwydd lle y mae mwy nag un athro'n gyfrifol am farcio'r asesiad dan reolaeth. Mae hyn yn angenrheidiol i sicrhau unffurfiaeth safonau o fewn canolfan. Lle y mae safoni mewnol yn angenrheidiol dylai'r athro sy'n cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am y broses hon ddarparu amlinelliad ysgrifenedig o'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd ar gyfer y safonwr allanol.

## 5.8 Safoni Allanol asesiad dan reolaeth

Bydd CBAC yn safoni asesiadau athrawon trwy archwilio'r Asesiad dan Reolaeth. Hysbysir canolfannau am ddyddiad cyflwyno'r Tasgau dan Reolaeth yn yr Amserlen Arholiadau a gyhoeddir a rhoddir enw'r safonwr yn nhyrnor y gwanwyn cyn yr achredu.

Mae *Llawlyfr Asesu Mewnol* CBAC yn rhoi cyfarwyddiadau am ddethol a danfon samplau o waith at y safonwr.

O ganlyniad i safoni, gall marciau ymgeiswyr gael eu haddasu i ddod â marciau'r ganolfan i gydredeg â'r safon genedlaethol. Os yw'n angenrheidiol, bydd y safonwr yn gofyn am samplau ychwanegol o waith ac os oes angen, gellir galw am waith yr holl ymgeiswyr i'w safoni'n allanol beth bynnag fo nifer y ceisiadau. Yn yr achos hwn, caiff yr holl Asesiadau dan Reolaeth eu postio at y safonwr.

Mae'n gymorth mawr i'r broses safoni os caiff marciau terfynol yr holl ymgeiswyr eu cyflwyno i'r safonwr mewn trefn restrol. Dim ond os gwneir hyn y gall y safonwr fod yn llwyr ymwybodol o effaith gyflawn unrhyw raddio. Nid yw'n angenrheidiol ysgrifennu'r holl enwau ar y ffurflen, gall taenlen a ddyfeisir yn fewnol gyflawni'r pwrpas hwn.

Os oes pryder am y gweithdrefnau dyfarnu, bydd y broses apelio arferol yn gymwys.

## 5.9 Dilysu

Bydd angen i ymgeiswyr gadarnhau yn ysgrifenedig, gydag unrhyw eithriadau wedi'u nodi, fod y gwaith wedi'i gwblhau heb gymorth. Gwneir hyn trwy lofnodi'r ddalen glawr CD3).

Bydd angen i athrawon gadarnhau'n ysgrifenedig, hyd at eithaf eu gwybodaeth, fod yr holl waith a gyflwynwyd i'w safoni, gydag unrhyw eithriadau wedi'u nodi, yn waith digymorth yr ymgeisydd ei hun. Gwneir hyn trwy lofnodi'r daflen farcio gyfansawdd (CD1/2) a dalen glawr yr asesiad dan reolaeth (CD3).

Dylid nodi manylion llawn unrhyw gymorth a roddir i ymgeiswyr penodol sydd y tu hwnt i'r hyn a roddir i'r grŵp dysgu cyfan ar CD3 a dylid rhoi ystyriaeth i hyn wrth asesu.

## 5.10 Cofnodi Marciau Asesiad dan Reolaeth

Caiff Ffurflenni CD1 a CD2 eu defnyddio i gofnodi marciau a anfonir at y safonwr.

Mae Llawlyfr Asesu Mewnol CBAC yn rhoi cyfarwyddiadau am weinyddu gwaith a asesir yn fewnol.

Bydd angen cyflwyno marciau ar-lein hefyd ar wefan ddiogel CBAC.

## 5.11 Cyflwyno Asesiad dan Reolaeth

Dylid cyflwyno'r canlynol:

- copïau o'r aseiniadau;
- nodiadau arweiniad cyffredinol a roddir i ymgeiswyr;
- rhestr o ddeunyddiau adnoddau a roddir i ymgeiswyr;
- taflenni marcio cyfansawdd CD1 a CD2;
- Yr asesiad dan reolaeth mewn rhwymwyr neu ffolderi clawr meddal gyda'r ddalen glawr (CD3) wedi'i rhoi ar y blaen;

Ni ddylid cyflwyno deunydd y gallai ymgeiswyr fod wedi ei gasglu yn eu hymchwil fel copïau lluosog o holiaduron a deunydd wedi'i argraffu'n barod gan fusnesau.

## 5.12 Dychwelyd Asesiad dan Reolaeth

Caiff gwaith ei ddychwelyd i ganolfannau gan y safonwr pan fydd y broses safoni wedi'i chwblhau. Caiff sampl o waith ei anfon at y Prif Safonwr a gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer Gwobrwyo neu HMS neu fel deunydd enghreifftiol.

## 5.13 Cadw Asesiad dan Reolaeth

Mae angen i ganolfannau gadw'r Asesiadau dan Reolaeth tan ddiwedd mis Tachwedd yn dilyn yr Arholiad haf.

# 6

## DISGRIFIADAU O'R GRADDAU

Rhoddir disgrifiadau gradd er mwyn rhoi syniad cyffredinol am safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr yn debygol o fod wedi'u dangos wrth gael graddau penodol. Rhaid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys a nodir gan y fanyleb; ni chawsant eu cynllunio i ddiffinio'r cynnwys hwnnw. Bydd y radd gaiff ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar i ba raddau y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall gwell perfformiadau mewn agweddau ar berfformiad ymgeiswyr wneud iawn am ddiffygion mewn rhai agweddau eraill.

### Gradd A

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dethol ac yn cyfathrebu gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o economek y cartref.

Maent yn defnyddio gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd i gynllunio ac i gynnal archwiliadau a thasgau, gan weithio'n ddiogel a chyda gradd uchel o gywirdeb.

Maent yn dadansoddi ac yn gwerthuso'r dystiolaeth sydd ar gael, gan adolygu ac addasu eu dulliau lle y bo angen. Maent yn cyflwyno gwybodaeth yn glir ac yn gywir, gan lunio barn resymegol a chyflwyno casgliadau wedi'u cyfiawnhau.

### Gradd C

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dethol ac yn cyfathrebu gwybodaeth gadarn a dealltwriaeth o economek y cartref.

Maent yn defnyddio gwybodaeth addas, dealltwriaeth a sgiliau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd i gynllunio ac i gynnal archwiliadau a thasgau, gan weithio'n ddiogel a chyda chywirdeb.

Maent yn adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael, gan werthuso peth o'r wybodaeth yn glir, a chyda pheth cywirdeb. Maent yn llunio barn ac yn dod i gasgliadau priodol.

### Gradd F

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dethol ac yn cyfathrebu gwybodaeth am agweddau sylfaenol ar economek y cartref.

Maent yn defnyddio gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sylfaenol i gynllunio ac i gynnal archwiliadau a thasgau, gydag ymwybyddiaeth o'r angen am ddiogelwch a chywirdeb. Maent yn addasu eu dull yn sgîl cynnydd.

Maent yn adolygu eu tystiolaeth ac yn llunio casgliadau sylfaenol.

# 7

## Y CWRICWLWM EHANGACH

### Sgiliau Allweddol

Mae Sgiliau Allweddol yn rhan annatod o astudio Economeg y Cartref: Datblygiad Plant a gellir eu hasesu trwy gynnwys y cwrs a'r cynllun asesu perthynol fel y'i diffinnir yn y fanyleb. Gellir datblygu'r sgiliau allweddol canlynol trwy gyfrwng y fanyleb hon ar lefelau 1 a 2:

- Cyfathrebu
- Datrys Problemau
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Gweithio gydag Eraill
- Gwella Eich Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun

Mapio cyfleoedd i olrhain datblygiad y sgiliau hyn yn erbyn gofynion tystiolaeth y Sgiliau Allweddol yn yr 'Enghreifftio Sgiliau Allweddol ar gyfer Economeg y Cartref: Datblygiad Plant', ar gael ar wefan CBAC.

### Cyfleoedd ar gyfer Defnyddio Technoleg

Disgwylir i ymgeiswyr wneud defnydd effeithiol o TGCh mewn ffyrdd sy'n addas i anghenion y pwnc. Bydd cyfleoedd yn codi yn yr asesiad dan reolaeth lle y disgwylir iddynt ganfod, dethol a chyfuno gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau cynradd ac eilaidd. Bydd cyfleoedd yn codi hefyd yn ystod gweithgareddau ystafell ddosbarth arferol i:

- ddefnyddio rhaglenni cronfa ddata i holi cronfeydd gwybodaeth a gofnodwyd o flaen llaw;
- defnyddio pecynnau prosesu geiriau a chyhoeddi;
- defnyddio pecynnau graffig.

Bydd y gwaith hwn yn cynhyrchu tystiolaeth ar gyfer asesu sgîl allweddol TGCh.



## **Materion Ysbrydol, Moesol, Moesegol, Cymdeithasol, Deddfwriaethol, Economaidd a Diwylliannol**

Mae'r fanyleb hon yn darparu fframwaith ac mae'n darparu cynnwys sy'n rhoi modd i gyrsiau unigol fynd i'r afael â materion ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol, diwylliannol a materion eraill.

Mae'r fanyleb yn darparu cyfleoedd i ymgeiswyr lunio barn a phenderfyniadau a bydd yn cyfrannu'n sylweddol at eu dealltwriaeth o'r materion hyn.

Mae digon o gyfle i ymgeiswyr fyfyrion ar arwyddocâd ac ystyr bywyd; i gydnabod eu gwerth eu hunain a gwerth unigolion a chymunedau eraill; i fynegi barn bersonol ac ystyried codau ymddygiad sy'n dderbyniol yn gymdeithasol o fewn cymdeithas amrywiol ei diwylliant. Mae'r testunau canlynol yn darlunio sut y gellir ystyried y materion hyn yn y fanyleb hon:

### **Materion ysbrydol**

- Y teulu a'r plentyn.
- Datblygiad cymdeithasol – hunan hyder a hunan-barch.
- Cenhedlu a geni.

### **Materion Moesol a Moesegol**

- Priodas ac ysgariad.
- Caffael gwerthoedd teulu.
- Patrymau ymddygiad a phroblemau.

### **Materion cymdeithasol**

- Rolau teulu.
- Rôl asiantaethau cefnogi.
- Dylanwad yr amgylchedd cyn-ysgol.
- Integreiddio/ amrywiaeth cymdeithasol.

### **Materion deddfwriaethol**

- Cysyniadau o gyfleoedd cyfartal.
- Hawliau unigolion a theuluoedd i ddarpariaeth gwasanaethau.

### **Materion economaidd**

- Hawliau a chyfrifoldebau mewn perthynas â'r teulu a'r unigolyn fel defnyddiwr.
- Rolau a chyfrifoldebau bod yn rhieni: trafodaeth o gost mewn perthynas â bwyd, dillad, teganau, addysg, gofal plant.

### **Materion diwylliannol**

- Amgylcheddau ysgol amlddiwylliannol.
- Anghenion deietegol amlddiwylliannol.

## Datblygiad Cynaliadwy, Ystyriaethau Iechyd a Diogelwch a Datblygiadau Ewropeaidd sy'n gyson â chytundebau rhwyngwladol

### Datblygiad Cynaliadwy

Bydd cyfleoedd ar gyfer ystyried materion amgylcheddol yn digwydd yn y fanyleb hon trwy astudio:

- ffactorau amgylcheddol a fydd yn dylanwadu ar ddatblygiad plentyn, e.e. ysgol, ysbyty;
- materion amgylcheddol yn dylanwadu ar ddewis bwyd;
- gwerth addysg gyn-ysgol;
- dulliau byw cynaliadwy.

### Ystyriaethau Iechyd a Diogelwch

Mae Iechyd a Diogelwch yn greiddiol i holl agweddau'r fanyleb a disgwylir iddynt fod yn rhan annatod o'r holl ddysgu. Disgwylir i ymgeiswyr ystyried a defnyddio'r ffactorau hyn wrth gynnal eu tasgau/gweithgareddau ymarferol. Rhaid mynd i'r afael ag Iechyd a Diogelwch yn y meysydd cynnwys canlynol:

- wrth ddangos sgiliau ymarferol a threfniadol perthnasol;
- diogelwch bwyd a hylendid bwyd wrth baratoi a gwneud eitemau o fwyd yn y cartref;
- atal damweiniau ac amddiffyn mewn perthynas ag anghenion corfforol y plentyn; gwerth rhaglenni imiwneiddio;
- pwysigrwydd amgylchedd diogel i chwarae;
- arolwg/awdit o asesiad risg.

### Datblygiadau Ewropeaidd

Mae'r fanyleb hon, lle y mae'n briodol (er enghraifft safonau labelu a chodau ymarfer) yn cefnogi addysg amgylcheddol, y dimensiwn Ewropeaidd ac addysg Iechyd, yn gyson â chytundebau cyfredol yr UE. Mae'r dull yn cydymffurfio â'r dyheadau yn ymwneud â'r dimensiwn Ewropeaidd mewn addysg ac addysg amgylchedd, yn enwedig y rhai a fwriedir ar lefel yr aelod-wladwriaethau, a fynegwyd ym Mhenderfyniadau 1998 y Gymuned Ewropeaidd ac yng nghyfarfod y Gweinidogion Addysg o fewn y Cyngor.